## Hysbysiadau Archwilio sy'n cael eu hychwanegu gan Rheoliadau

### Ardystio a chymeradwyo cyfrifon blynyddol ar gyfer 2019-20

Mae rheoliad 15 (1) o Rheoliadau Cyfrifon ac archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog ariannol cyfrifol **GYNGOR CY** LLANFACHRAETH i lofnodi a dyddio'r datganiad *o gyfrifon, ac ardystio ei fod yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r Cyngor yn gywir am y flwyddyn.* Roedd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 30 Mehefin 2020.

**Roedd y swyddog ariannol cyfrifol wedi llofnodi a thystio'r cyfrifon ar y 29ain MAI 2020.**

Mae rheoliad 15 (2) o Rheoliadau Cyfrifon ac archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol, yn dilyn yr ardystiad gan y swyddog ariannol cyfrifol y cyfeirir ato uchod, fod yn rhaid i'r Cyngor gymeradwyo 'r cyfrifon. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 30 Mehefin 2020.

**Oherwydd achos y COVIC-19, nid yw CYNGOR CY**LLANFACHRAETH **wedi cwrdd i gymeradwyo'r cyfrifon.**

### Cyhoeddi cyfrifon archwiliedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

Mae rheoliad 15 (5) o Reoliadau Cyfrifon ac archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol, erbyn 30 Medi 2020, i **GYNGOR C** LLANFACHRAETH **N** gyhoeddi ei ddatganiadau *cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020* ynghyd ag unrhyw dystysgrif, barn neu adroddiad a gyhoeddwyd, a roddwyd neu a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r datganiadau cyfrifyddu ar ffurf ffurflen flynyddol wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, cyhoeddir y cyfrifon cyn i'r archwiliad ddod i ben. Oherwydd effaith COVID-19, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi barn archwilio eto.